

# Strategaeth Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol

## Cyngor Caerdydd

## 2022-27



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

Rydyn ni'n Gyflogwr Cyflog Byw


CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cynnwys




| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Polisi'r Cyngor | 4 |
| Pam mae Caffael yn Bwysig | 5 |
| Llywio ein Strategaeth | 6 |
| Cyflawni Gwerth Drwy'r Cylch Caffael Cyfan | 9 |
| Amcanion Caffael Allweddol | 11 |
| Prif Alluogwyr | 26 |
| Monitro, Adolygu ac Adrodd | 27 |
| Rheoli Caffael | 28 |
| Cymorth Cyflenwyr a Gwybodaeth Bellach | 29 |



# Rhagair

Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o heriau allweddol gan gynnwys ein hymateb i effaith pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw ar ein cymunedau a'n busnesau, ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd, a rheoli'r pwysau parhaus sydd ar ein cyllideb ar adeg o alw cynyddol am wasanaethau ac amodau ansicr yn y farchnad.

"Mae gweledigaeth Cabinet ar gyfer Caerdydd CRYFACH, TECACH, GWYRDDACH yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid defnyddio pŵer penderfyniadau gwario a buddsoddi'r Cyngor i roi cyfle i fusnesau lleol greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant lleol a hyrwyddo gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio graddfa a maint llawn y Cyngor fel grym er lles cymdeithasol ac amgylcheddol, gan bennu'r safon i bob sefydliad arall ei dilyn. Bydd hyn yn golygu gwneud yn fawr o effaith gymdeithasol ein gwariant, cyflymu'r symudiad i sero net ac arwain y ffordd fel cyflogwr 'Gwaith Teg'.

I'r perwyl hwn, rydym wedi ymrwymo i gyflawni buddion cymunedol, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth a phrentisiaethau, gan hyrwyddo "Arferion Gwaith Teg", gan gynnwys talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Rydym yn falch bod Caerdydd yn cael ei chydnabod yn Ddinas Cyflog Byw a byddem yn annog pob cyflogwr i ystyried buddion dod yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r rôl allweddol y bydd caffael yn dal i'w chyflawni o ran galluogi'r Cyngor i ateb yr heriau hyn, ac hefyd yn amlinellu ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae hon yn strategaeth gorfforaethol, a bydd ei chyflwyno yn gofyn am ymrwymiad a chefnogaeth gan bob Cyfarwyddiaeth a'u staff.

C. Weaver

**Y Cyng. Chris Weaver**
**Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Cyngor Caerdydd**





# Beth sy'n bwysig i Gaerdydd



## Cryfach, Tecach, Gwyrddach

Mae ymrwymiad y Cyngor i les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol wedi'i adlewyrchu'n glir yn Cryfach, Tecach, Gwyrddach, sef gweledigaeth y Cabinet ar gyfer Caerdydd.

Mae'r weledigaeth ar gyfer Caerdydd Cryfach, Tecach, Gwyrddach yn nodi blaenoriaethau'r Arweinydd ac aelodau'r Cabinet i gyflawni:

- **CAERDYDD GRYFACH**: Denu buddsoddiad a busnesau newydd i'r ddinas, hybu cynhyrchiant economaidd, creu swyddi o ansawdd dda yn y sectorau gwerth uchel a'r sector sylfaenol yng Nghaerdydd, a chryfhau ein gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd a bygythiadau amgylcheddol cysylltiedig.

- **CAERDYDD DECACH:** Darparu addysg, hyfforddiant, gwasanaethau i mewn i waith a gwasanaethau cymdeithasol rhagorol, yn ogystal â chysylltedd trafnidiaeth, i sicrhau bod pob dinesydd yn gallu elwa ar dwf Caerdydd a'r cyfleoedd newydd mae hynny'n ei greu.

- **CAERDYDD WYRDDACH:** Sicrhau rhwydwaith cadarn o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, i wneud Caerdydd yn 'ddinas 15 munud', cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwella bioamrywiaeth leol, a sicrhau bod twf yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i fod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030.





Mae Cryfach, Tecach, Gwyrddach yn cynnwys nifer o flaenoriaethau a lywiodd Amcanion Allweddol y Strategaeth hon, sef:

- Datgarboneiddio ein cadwyni cyflenwi.
- Cadw gwariant y Cyngor yn lleol ac yn fwy hygyrch i Fusnesau Bach a Chanolig.
- Defnyddio ein pŵer prynu i hybu hawliau gweithwyr a gwella safonau amgylcheddol.
- Parhau i hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith pob sector a chyflogwr.
- Sicrhau ymrwymiadau Budd Cymunedol i gefnogi gwaith ein Gwasanaeth i Mewn i Waith ac Addewid Caerdydd.

## Strategaeth Caerdydd Un Blaned




Strategaeth Caerdydd Un Blaned - yn 2019, datganodd Cyngor Caerdydd Argyfwng Hinsawdd. Caerdydd Un Blaned yw ymateb strategol y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd ac mae'n nodi sut y bydd Caerdydd yn dod yn Gyngor Carbon Niwtral ac yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030. Mae'r Strategaeth yn derbyn y bydd caffael yn offeryn allweddol o ran lleihau effaith carbon y Cyngor wrth i ni fabwysiadu egwyddorion caffael cylchol.




# Pam mae Caffael yn Bwysig

Cyngor Dinas Caerdydd yw'r awdurdod unedol mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am gyflawni ystod eang ac amrywiol o wasanaethau cyhoeddus statudol a dewisol. Mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau'n uniongyrchol drwy ei weithlu ei hun, a thrwy sefydliadau preifat a thrydydd sector.

O ganlyniad, yn gwariodd y Cyngor dros £560 miliwn yn ystod 2021/22 yn caffael ystod eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 8,000 o gyflenwyr a chontractwyr. Mae'r siart isod yn dangos meysydd gwariant allweddol 2021/22.

Yn ogystal â rheoli arian cyhoeddus yn ddarbodus, a dangos gwerth am arian, ystyrir caffael yn gynyddol fel asiant allweddol ar gyfer darparu nifer o flaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol mewn meysydd allweddol fel datgarboneiddio, gwaith teg, darparu 'lles ychwanegol' a chymorth i fusnesau a chymunedau lleol.


Mae'r Strategaeth hon felly yn ceisio nodi beth fydd y Cyngor yn ei wneud i barhau i wella'r ffordd y mae'n rheoli ei weithgarwch caffael er mwyn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn.




Caffael yw

*"Y broses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n cyflawni gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion i'r sefydliad, ond ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, tra'n lleihau niwed i'r amgylchedd. Mae'n cynnwys adnabod angen, ystyried opsiynau, y broses gaffael wirioneddol a'r rheolaeth ddilynol dros gontractau, a'u hadolygu."*





# Llywio ein Strategaeth

Mae nifer cynyddol o ofynion deddfwriaethol a pholisi sy'n llywio ac yn dylanwadu ar y ffordd mae'r Cyngor yn rheoli ei weithgarwch caffael ac sydd wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r Strategaeth hon. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai o'r gofynion a'r blaenoriaethau deddfwriaethol a pholisi cyffredinol allweddo, ac mae gwybodaeth bellach o fewn y Strategaeth.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Ffocws Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nod y Ddeddf yw helpu i greu Cymru yr ydym oll eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae caffael yw un o'r saith maes corfforaethol ar gyfer newid yng nghanllawiau statudol y Ddeddf.





Er bod y Strategaeth hon wedi'i strwythuro o gwmpas saith Amcan Caffael allweddol, rydym yn nodi sut mae pob amcan yn cyfrannu at bob un o'r Nodau Llesiant Cenedlaethol. Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i wreiddio caffael cynaliadwy ymhellach drwy'r Cyngor cyfan.

**INTEGREIDDIO** **CYDWEITHIO** **HIRDYMOR** **CYFRANOGIAD** **ATAL**



## Cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol


Mae Cyngor Caerdydd a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi cytuno ar Amcanion Llesiant lleol, sydd wedi eu nodi yng Cynllun Lles Caerdydd Er mwyn mesur cynnydd Caerdydd tuag at gyflawni'r saith Amcan Llesiant, dewiswyd cyfres o ddangosyddion canlyniadau lefel uchel sy'n darparu mesurau gwrthrychol o berfformiad y ddinas.



# Llywio ein Strategaeth

## Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPPC)

Mae'r DPPC yn nodi'r deg egwyddor y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru eu dilyn ar gyfer caffael sy'n ystyried llesiant yng Nghymru yn seiliedig ar Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru. Bydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn cryfhau'r gofyniad i sefydliadau'r sector cyhoeddus gadw at y DPPC.




Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y map llwybr tuag at statws carbon sero-net erbyn 2030, sy'n nodi:

***"Erbyn 2030, bydd dewisiadau di-garbon yn rhan o'r drefn arferol, byddant wedi ymwreiddio yn ein diwylliant ac yn cael eu hunan-reoleiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru."***




## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw at y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (DCSC) drwy ei holl swyddogaethau a gwasanaethau drwy:

- Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- Hybu cyfle cyfartal
- Meithrin perthnasau da

Ystyrir cydraddoldeb trwy gydol ein cylch caffael ac rydym yn sicrhau bod y DCSC yn cael ei chymhwyso i bob contract waeth beth fo'u gwerth, gan ein cynorthwyo i fodloni gofynion penodol y Ddeddf o ran Dyletswydd Caffael. Lle bo'n berthnasol, byddwn yn gweithio gyda chontractwyr i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion DCSC.

## Rheoliadau Contractau Cyhoeddus a Diwygio Caffael

Mae caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan y sector cyhoeddus yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (RhCCau 2015) fel y'i diwygiwyd, sydd wedi eu seilio ar egwyddorion rhyddid symud nwyddau, rhyddid sefydlu a rhyddid i ddarparu gwasanaethau. Caiff yr egwyddorion hyn eu hategu gan werthoedd triniaeth deg, peidio â gwahaniaethu, cydnabyddiaeth gyfartal, cyfranoledd a thryloywder.

Mewn ymateb i'r DU yn gadael yr UE cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyrdd: Trawsnewid Caffael Cyhoeddus (cyhoeddwyd Rhagfyr 2020) ac ym mis Mai 2022 cyflwynodd y Bil Caffael i'r Senedd. Mae'r Bil, sydd eto i'w ddeddfu, yn cyflwyno trefn gaffael gyhoeddus newydd a, pan fydd yn cael ei ddeddfu, bydd yn dirymu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae'n annhebygol y bydd y drefn newydd yn dod i rym tan ganol 2023 ar y cynharaf. Ei bwriad fydd ymgorffori egwyddorion caffael cyhoeddus: gwerth am arian, lles y cyhoedd, tryloywder, uniondeb, effeithlonrwydd, triniaeth deg i gyflenwyr a pheidio â gwahaniaethu yn y gyfraith.

## Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Mae disgwyl i'r Bil ddod yn gyfraith yn 2023 ac mae'n cydnabod mai Caffael yw un o'r ffyrdd pwysicaf sydd gennym i gefnogi'r gwaith o greu Cymru fwy cyfartal, mwy cynaliadwy a mwy ffyniannus. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gaffael mewn ffordd gymdeithasol-gyfrifol trwy weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor:

- Ystyried caffael cymdeithasol-gyfrifol wrth gaffael ar gyfer 'contractau rhagnodedig'.
- cynnwys cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr a chymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn unrhyw gontractau gwasanaeth ar gontract allanol.
- cyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau -gyfrifol yn cael eu dilyn trwy gadwyni cyflenwi.
- cyhoeddi Cofrestr Contractau a Blaengynllun Contractau.
- cynhyrchu Adroddiad Caffael blynyddol.


# Cyflawni Gwerth Drwy'r Cylch Caffael Cyfan



Mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r rôl allweddol y gall caffael ei chyflawni wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein Cymunedau a'r Blaned gyfan.

**I gyflawni hyn mae'n hanfodol bod yr heriau hyn yn cael eu hystyried ar bob cam o'r cylch caffael sy'n golygu bod gan yr holl staff sy'n rhan o bennu, cyrchu, dyfarnu a rheoli contractau rôl allweddol i'w chwarae. Mae'n arbennig o bwysig bod digon o sylw ac amser yn cael eu buddsoddi yn y camau cynllunio a rheoli contractau.**

Wrth ystyried cyflwyno gwerth, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng prif amcanion / dibenion / manteision disgwyliedig rhoi arian cyhoeddus i brosiectau neu gontractau a'r amcanion eilaidd gwerth ychwanegol y gellir eu cyflawni hefyd.




Mae enghreifftiau o'r ffordd y gall gwerth gael ei gynhyrchu / ei ddarparu drwy'r cylch caffael yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Annog atebion arloesol gan y farchnad drwy ffocysu ar ganlyniadau yn hytrach na mewnbynnau ac allbynnau.
- Defnyddio manylebau tendro i wneud deunyddiau neu ddulliau adeiladu carbon is yn ofynnol.
- Annog dulliau caffael ac economi cylchol.
- Strwythuro tendrau i wella hygyrchedd i fusnesau llai.
- Ystyried cost oes gyfan wrth ddyfarnu contractau.
- Defnyddio cymalau cytundebol i sicrhau bod ymrwymiadau gwaith teg yn cael eu cyflawni.
- Sicrhau bod budd cymunedol ac ymrwymiadau gwerth cymdeithasol gan gontractwyr wedi'u targedu at gefnogi cyflawni blaenoriaethau ehangach y Cyngor.
- Rheoli contractau'n effeithiol er mwyn sicrhau bod gofynion ac ymrwymiadau gwerth ychwanegol yn cael eu cyflawni.

# Amcanion Caffael Allweddol

Er mwyn sicrhau bod ein Strategaeth yn mynd i’r afael â’r blaenoriaethau a amlinellwyd eisoes, mae’r Amcanion Caffael canlynol wedi’u hadnabod.

- **Cyfrannu at nod y Cyngor i fod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030.**
- **Gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a’r trydydd sector.**
- **Gwella arferion Gwaith Teg a Diogelu a fabwysiedir gan gyflenwyr.**
- **Cynyddu buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr.**
- **Sicrhau gwerth am arian a rheoli’r galw.**
- **Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a llywodraethu cadarn a thryloyw.**
- **Hybu atebion arloesi ac arfer gorau.**

Mae adran nesaf y Strategaeth hon yn ehangu ar yr amcanion caffael hyn ac yn darparu trosolwg byr o’r sefyllfa bresennol, nodi’r nodau allweddol, yr hyn y byddwn yn ei wneud a sut y byddwn yn mesur cyflawniad. Mae’r camau gweithredu manwl wedi’u cynnwys o fewn y Cynllun Cyflawni Strategaeth Gaffael Cymdeithasol-Gyfrifol sy’n cyd-fynd â’r ddogfen hon.



Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Cyfrannu at nod y Cyngor i fod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030


Drwy ei Strategaeth Caerdydd Un Blaned, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Gan ddefnyddio Fframwaith Adrodd Carbon Llywodraeth Cymru, gwelir y daw mwy nag 80% o'n hôl troed carbon o allyriadau anuniongyrchol sy'n deillio o'r nwyddau, gwasanaethau a gwaith y mae'r Cyngor yn eu prynu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.

Mae gan gaffael rôl wrth gefnogi lleihau elfennau o allyriadau Cwmpas 1 a 2, y mae gan y sefydliad lefel o ddylanwad uniongyrchol drostynt (er enghraifft, allyriadau sy'n deillio o'u hystâd eu hunain / gweithrediadau mewnol - cymudo gweithwyr / teithio busnes) ond mae'r Strategaeth hon yn ffocysu ar allyriadau Cwmpas 3 y nwyddau, gwasanaethau a'r gwaith a brynir.

Felly, bydd angen cyflawni unrhyw ostyngiad yn ein hôl troed carbon drwy gyfrwng Cyfarwyddiaethau'n ailystyried ac yn herio'r hyn y maent yn ei brynu a'r ffordd y cyflawnir pethau.

Yr her benodol a gyflwynir gan allyriadau Cwmpas 3 yw, er eu bod yn codi o'r galwadau ar y sefydliad o ran nwyddau, gwasanaethau neu waith maent yn digwydd yng ngweithgareddau'r gadwyn gyflenwi nad yw'r Cyngor yn berchen arnynt nac yn eu rheoli'n uniongyrchol. Fodd bynnag, mae ein perthnasoedd cytundebol yn cyflwyno cyfleoedd i yrru lleihad mewn allyriadau drwy ein prosesau caffael (strategaethau caffael – sut rydym yn mynd at y farchnad; sut rydym yn pennu gofynion; gwerthuso tendrau a gosod dangosyddion perfformiad allweddol) a sicrhau bod y canlyniadau disgwyliedig yn cael eu darparu drwy ein perthnasoedd rheoli contractau drwy weithio gyda'n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi a mynd ymhellach drwy gymell arloesedd / gwelliant parhaus dros gyfnod y contract.

184904 (tunelli $CO_2$ Cwmpas 1,2 a 3)




Strategaeth Caerdydd Un Blaned - yn 2019, datganodd Cyngor Caerdydd Argyfwng Hinsawdd. Caerdydd Un Blaned yw ymateb strategol y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd ac mae'n nodi sut y bydd Caerdydd yn dod yn Gyngor Carbon Niwtral ac yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030. Mae'r Strategaeth yn derbyn y bydd caffael yn offeryn allweddol i leihau effaith carbon y Cyngor wrth i ni fabwysiadu egwyddorion caffael cylchol.



Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

# Cyfrannu at nod y Cyngor i fod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030

## Amcan (Lle rydyn ni'n dymuno bod)

- Mae'r Cyngor yn deall effaith carbon y cyflenwadau, y gwasanaethau a'r gwaith y mae'n eu prynu ac yn rhoi camau gweithredol ar waith i leihau eu hôl troed carbon.
- Mae'r Cyngor yn adnabod a gweithredu cyfleoedd i leihau carbon drwy'r cylch caffael cyfan.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Ddeall ôl-troed carbon nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynir gan y Cyngor i sicrhau bod ein gweithgaredd lleihau carbon yn cael ei dargedu lle y gall gael yr effaith fwyaf.
- Gweithio gyda'n haelodau etholedig, staff, partneriaid a chontractwyr i sicrhau bod lleihau carbon yn cael ei wreiddio'n llawn yn ein prosesau gwneud penderfyniadau drwy'r cylch caffael cyfan ac y gweithredir atebion carbon isel pan fo'n briodol.
- Cydweithio â sefydliadau drwy'r sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r trydydd sector, cyfan, er mwyn annog a chyflymu'r broses o drosglwyddo at atebion carbon isel.

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Adrodd ar gyfraniad caffael at leihau carbon drwy strwythurau llywodraethu Caerdydd Un Blaned y Cyngor.





# Gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector

Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod y gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y gellir ei gynhyrchu drwy wario arian gyda busnesau lleol, yn arbennig fusnesau bach a micro, ac unigolion, a'r trydydd sector, gan gynnwys mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol (MGCCh).

Mae gan Cryfach, Tecach, Gwyrddach ffocws clir ar werth cefnogi'r Economi Sylfaenol a chadw mwy o'n gwariant yn lleol.

Mae **Nodyn Polisi Caffael Cymru (NPCC) 07/21** yn nodi ac yn adeiladu ar yr egwyddorion o fewn 'Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig'. Mae NPCC yn nodi'r hyn y gall Sector Cyhoeddus a Busnesau Bach a Chanolig Cymru ei wneud i sicrhau bod proses gaffael sy'n gyfeillgar i BBaChau yn cael ei mabwysiadu a'i gweithredu. Mae gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ffocws penodol ar rôl Cwmnïau Gwerth Cymdeithasol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynghorau.

Mae gan y Cyngor ganllaw Gwerthu i'r Cyngor sy'n ceisio helpu cyflenwyr i gynnig am, a chael, cyfleoedd contractau gyda'r Cyngor a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.





Mae'r Cyngor yn mesur gwariant 'lleol' ar gyfer Caerdydd, Dinas-ranbarth Caerdydd yn ehangach a Chymru. Yn ogystal â mesur gwariant yn uniongyrchol â chyflenwyr o Gymru mae hefyd yn mesur effaith gwariant gan gyflenwyr Haen 1 yn lleol (y rhai y mae gennym gontractau uniongyrchol â nhw) gyda chyflenwyr a chontractwyr lleol trwy eu cadwyni cyflenwi.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ein Gwariant Lleol / Rhanbarthol oedd:

- Caerdydd 53.24%
- Rhanbarth Caerdydd 14.75%

Yn yr un cyfnod roedd ein gwariant gyda busnesau bach a chanolig (BBaChau) yn 54.19% o gyfanswm ein gwariant.

## Gwariant Lleol / Rhanbarthol 2021/22



Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cymru o gymunedau cydlynus

# Gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector

## Amcan (Lle rydyn ni'n dymuno bod)


- Mae busnesau bach a sefydliadau'r trydydd sector yn:
  - gallu gweld a chael mynediad at gyfleoedd i gynnig am gontractau'r Cyngor.
  - ei chael yn haws cynnig am gyfleoedd i gydweithio gyda'r Cyngor.
  - deall yn well lle mae cyfleoedd yn bodoli i gyflenwi drwy gyflenwyr a chontractwyr presennol y Cyngor.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)


- gynyddu argaeledd a gweledeedd cyfleoedd i fusnesau bach a'r trydydd sector i gyflenwi i'r Cyngor.
- Ei gwneud yn haws i fusnesau bach a'r trydydd sector wneud busnes gyda'r Cyngor.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gallu a chapasiti busnesau bach a'r trydydd sector i sicrhau cytundebau yn y sector cyhoeddus.

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Gynyddu gwerth y gwariant gyda busnesau lleol a'r trydydd sector.
- Cynyddu nifer y busnesau lleol a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gwneud cais ac ennill cytundebau gyda'r Cyngor.



Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang





# Gwella arferion Gwaith Teg a mabwysiadu arferion Diogelu gan gyflenwyr

Yn 2012 dechreuodd Cyngor Caerdydd dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl staff, yn 2015, daeth y Cyngor yn sefydliad Cyflog Byw achrededig, ac yn 2019 chwaraeodd rôl allweddol yn llwyddiant Caerdydd i ennill statws Dinas Cyflog Byw. Yn ôl ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd 42,000 (20.7 %) o swyddi Caerdydd yn talu o dan y Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2017 ac erbyn 2021 roedd hyn wedi gostwng i 24,000 (11.6 %) o swyddi. Mae Prifysgol Caerdydd wedi amcangyfrif bod £39 miliwn ychwanegol wedi mynd i economi Caerdydd ers 2012 o ganlyniad i dâl gweithwyr yn codi i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ers 2012.

Ym mis Mawrth 2017, y Cyngor oedd y sefydliad cyntaf i ymrwymo i'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, sy'n ceisio mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol, rhestru duon, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a chontractau dim oriau.

Yn 2019, y Cyngor oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern ac mae wedi cyflwyno hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern i dros 3,800 o staff erbyn hyn. Yn 2021 datblygodd y Cyngor bolisi Diogelu ar gyfer Contractwyr sydd wedi'i gynnwys ym mhob tendr.

Yn 2023 mae disgwyl i'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ddod yn gyfraith. Diben y Bil yw creu fframwaith i wella lles pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cyfrifol, gan gynnwys drwy sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Elfennau o'r Cod Ymarfer: Mae'n debygol y daw cyflogaeth foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn orfodol ac wedi'i gwreiddio o fewn canllawiau statudol.




Mae masnach deg yn cefnogi ffermwyr a gweithwyr mewn gwledydd sy'n datblygu drwy brisiau gwell, amodau gwaith gweddus a bargen deg. Ym mis Mawrth 2004, daeth Caerdydd yn Brifddinas Masnach Deg gyntaf y byd, a rhoddwyd y dyfarniad hwn gan y Sefydliad Masnach Deg. Mae gan y Cyngor bolisi o weini te a choffi masnach deg mewn cyfarfodydd ac mae'n weithredol o ran cefnogi hyrwyddo Masnach Deg ar draws y ddinas. Mae gan y Cyngor gynrychiolaeth ar Fasnach Deg Caerdydd, sy'n bartneriaeth leol o sefydliadau ac unigolion sydd wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o fasnach deg a chynyddu prynu cynhyrchion masnach deg ledled y ddinas.

Mae diogelu pobl agored i niwed yn un o brif flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn ei gwneud yn glir bod diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed yn gyfrifoldeb i bawb a chyflwynwyd Polisi Diogelu i Gontractwyr yn 2021.

Fair Trade Cardiff
The World's First Fair Trade Capital
We are a Fair Trade City

Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

# Gwella arferion Gwaith Teg a mabwysiadu arferion Diogelu gan gyflenwyr

## Amcan (Lle rydyn ni'n dymuno bod)


- Defnyddir caffael i ddylanwadu ar, a chynyddu, gwaith teg cadarnhaol a chanlyniadau cymdeithasol-gyfrifol sydd o fudd i'r ddinas drwy fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.
- Mae'r Cyngor a'i gyflenwyr a'i gontractwyr yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn diogelu ac yn hybu hawliau plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Sicrhau bod tendrwyr a chontractwyr yn ymwybodol o ymrwymiad y Cyngor i weithio gyda sefydliadau a fydd yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb, gwaith teg a diogelu.
- Defnyddio ein proses dendro a'n contractau i sicrhau bod ein contractwyr wedi ymrwymo i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb, gwaith teg a diogelu.
- Rheoli Cyflenwyr a Chontractwyr i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hymrwymiadau cydraddoldeb, gwaith teg a diogelu o fewn eu sefydliad a'u cadwyn gyflenwi.

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Adrodd am gynnydd yn erbyn ein targedau Dinas Cyflog Byw.
- Cyflawni yn erbyn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ac egwyddorion y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.





# Cynyddu buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr

Mae Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol yn ymrwymiadau a wneir gan dendrwyr i ddarparu gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ychwanegol trwy gydol y gwaith o gyflawni contractau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cynnwys gofynion Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru mewn contractau adeiladu a chynnal a chadw o bwys yn rheolaidd dros y 10 mlynedd diwethaf.

Fodd bynnag, er gwaethaf rhai llwyddiannau nid yw Buddion Cymunedol wedi'u gwreiddio o fewn yr holl gategorïau ac mae rheoli ac adrodd ar gyflawni wedi bod yn broblematig.

Ers 2020, mae'r Cyngor wedi bod yn treialu'r defnydd o Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol ThCM (Themâu, Canlyniadau, Mesurau) Cenedlaethol Cymru. Gan ddefnyddio cyfuniad o fesurau meintiol ac ymatebion ansoddol mae'r dull gweithredu yn caniatáu i ymatebion gan gynigwyr ynghylch Buddion Cymunedol gael eu gwerthuso a'u monitro, a gwella dulliau adrodd ar gyflawniadau.




Er mwyn cefnogi'r gwaith cyflenwi, sefydlwyd Grŵp Cyflenwi Gwerth Cymdeithasol, sy'n dwyn ynghyd dimau allweddol o bob rhan o'r Cyngor i Lywio Blaenoriaethau a Galluogi Cyflawni gyda ffocws penodol ar gefnogi gwaith a blaenoriaethau Gwasanaeth i Mewn i Waith y Cyngor a rhaglen Addewid Caerdydd i greu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth gan effeithio'n gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc.

Mae'r dull o ymdrin â buddion cymunedol yng Nghymru yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ac mae Cyngor Caerdydd yn chwarae rhan weithredol i ddatblygu dull cyffredin ymhlith holl Sector Cyhoeddus Cymru.

Bydd Buddion Cymunedol fel arfer yn ffocysu ar:

- Hyfforddi a recriwtio pobl sy'n anweithgar yn economaidd
- Mentrau'r gadwyn gyflenwi a Gweithio gyda'r 3ydd Sector
- Mentrau Addysgol
- Mentrau Cymunedol a Diwylliannol
- Mentrau Amgylcheddol

The Cardiff Commitment Addewid Caerdydd

National TOMs Wales 2020

i mewn i waith gwasanaeth cynghori / into work advice service

# Cynyddu buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr

## Amcan (Lle rydyn ni'n dymuno bod)

- Gwneir yn fawr o fuddion cymunedol a chyfleoedd Gwerth Cymdeithasol ac maent yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor a'r unigolion a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.
- Cyflwynir ymrwymiadau Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol ac mae tystiolaeth o'r budd i'r unigolyn a / neu gymuned.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Fabwysiadu dull cyson o sicrhau a rheoli'r gwaith o ddarparu Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol mewn ffordd y mae'r Cyngor a'i gontractwyr yn ei deall.
- Cydlynu'r dull Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol drwy weithio gyda gwasanaethau'r Cyngor, ein cymunedau, ein partneriaid a'n contractwyr i lywio ein blaenoriaethau a hwyluso'r gwaith o'u cyflawni.
- Adrodd ar gyflawniadau, hyrwyddo llwyddiant a rhannu dysgu.

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Gynyddu nifer y tendrau sy'n gofyn am Fuddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol.
- Cynyddu cyfaint a gwerth Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol sydd wedi eu haddo, a'u cyflawni, drwy gontractau'r Cyngor.



# Amcanion Caffael Allweddol



## Sicrhau gwerth am arian a rheoli’r galw

Bob blwyddyn mae’r Cyngor yn gwario tua £550 miliwn ar gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae gofyn i’r Cyngor ddangos ei fod yn cael ‘Gwerth am Arian’ a’r ‘Gwerth Gorau’.

Un ffordd y mae’r Cyngor yn gallu dangos Gwerth am Arian yw drwy ddyfarnu contractau drwy gystadleuaeth. Mae gan y Cyngor gyfres gadarn o Reolau Gweithdrefnau Contract ar waith sy’n rheoli’r prosesau sydd angen eu dilyn wrth geisio prynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau gan gyflenwyr allanol. Mae gwariant o dan reolaeth yn uwch na 90% gydag adroddiadau chwarterol i’r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) ar wariant sydd y tu allan i drefniadau cytundebol a’n rheolau mewnol.


Yn ddiweddar rydym wedi sefydlu Blaengynllun Contractau a Chofrestr Contract ledled y Cyngor sy’n darparu llawer mwy o oruchwyliaeth o’n contractau presennol a’r gallu i gynllunio’r gwaith o adnewyddu contract a gofynion newydd yn well.

Er bod y ffocws yn aml ar y broses dendro a sicrhau pris cystadleuol mae’n hanfodol bod contractau’n cael eu rheoli’n effeithiol i sicrhau bod gofynion ac ymrwymiadau’n cael eu cyflawni, a bod prisiau a chostau yn parhau gyd-fynd â’r trefniadau cytundebol.

Lle bo’n briodol, bydd y Cyngor yn ceisio cydweithio â’r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru o ran defnyddio trefniadau contractio cydweithredol a’u cyflawni. I’r perwyl hwnnw mae Caerdydd wedi chwarae rhan allweddol yn cefnogi Rhwydwaith Caffael Cenedlaethol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a datblygu Piblinell Contractau Cydweithredol a darparu tri fframwaith rhanbarthol sylweddol ar gyfer contractwyr priffyrdd, adeiladau ac ymgynghori – SEWSCAP, SEWH a SEWTAPS.

Mae hyn yn arbennig o heriol ar hyn o bryd wrth i ni reoli effaith Brexit a COVID a digwyddiadau arwyddocaol eraill sy’n cael effaith ar ein cadwyni cyflenwi nawr ac yn y dyfodol tymor canolig. Mae materion prisiau ac argaeledd yn debygol o fod yn her dros dymor y Strategaeth hon.

**Gwerth am Arian yw’r “cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran creu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd dda i’r sefydliad, ac hefyd o ran budd i gymdeithas, yr economi, a’r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol”**





## Sicrhau gwerth am arian a rheoli'r galw

### Amcan (Lle rydyn ni'n dymuno bod)

- Gall y Cyngor ddangos yn glir ei fod yn sicrhau gwerth am arian o'i wariant trydydd parti trwy bob cam o'r cylch bywyd caffael gan gynnwys cynllunio, dyfarnu a rheoli contractau.
- Mae'r Cyngor yn cyflwyno tystiolaeth yn rheolaidd ei fod yn ystyried ansawdd a chost oes gyfan o ran ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yn ehangach, yn enwedig lleihau carbon a buddion cymunedol.


### Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Adolygu a herio'r hyn rydym yn gwario ein harian arno a nodi cyfleoedd i sicrhau effeithlonrwydd.
- Dangos gwerth am arian ac ystyried cost oes gyfan y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.
- Rheoli cyflawni contractau ac effaith pris a phwysau'r farchnad.

### Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Adrodd ar % y gwariant dan reolaeth.
- Adrodd am gyfraniad caffael at dargedau arbedion drwy gaffael effeithiol.
- Rheoli ein Blaengynllun Contractau a'i gyhoeddi'n chwarterol.





# Amcanion Caffael Allweddol



## Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a llywodraethu cadarn a thryloyw

Mae’r ffordd mae’r Cyngor yn ymgymryd â’i weithgarwch caffael yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y DU a Chymru, a Chyfansoddiad y Cyngor ei hun, sy’n cynnwys ein Gorchmynion Sefydlog o ran Contractau a’n Rheolau Caffael.

Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y DU 2015 yn gosod gofynion cyfreithiol yn benodol o ran sut mae’r Cyngor yn dyfarnu contractau â gwerth uwch na throthwyon penodol. Bwriad y Rheoliadau hyn oedd creu marchnad UE agored, tryloyw a chyfartal. Yn sgil y DU yn gafael yr UE mae Llywodraethau’r DU a Chymru wedi bod yn adolygu deddfwriaeth caffael, y bwriedir iddi ddod i rym yn 2023. Er bod yr union fanylion yn dal i gael eu datblygu mae’n amlwg y bydd gofyn am fwy o dryloywder o ran gweithgarwch caffael.

Bydd y ddeddfwriaeth gaffael newydd yn cael ei chryfhau ymhellach yng Nghymru rwy’r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) y bwriedir iddo hefyd ddod i rym yn 2023. Bydd y Gwasanaethau Caffael a Chyfreithiol yn cydweithio’n agos i ddatblygu unrhyw newidiadau yn null caffael y Cyngor y gallai fod yn ofynnol iddo gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth arfaethedig.

Yn ogystal â’r gofynion deddfwriaethol mae gweithgarwch caffael yn y Cyngor hefyd yn ddarostyngedig i Gyfansoddiad y Cyngor, yn enwedig y Cynllun Dirprwyo a Rheolau Sefydlog Contractau a Rheolau Caffael.

Mae gofynion y Cyfansoddiad ar waith i sicrhau llywodraethu tryloyw drwy ofynion penderfynu sydd wedi’u diffinio’n glir, ac atebolrwydd i sicrhau cywirdeb a lleihau’r risg o dwyll.

Darperir adroddiadau Goruchwylio a Sicrwydd Caffael i’r Uwch Dîm Rheoli bob chwarter ac mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu’n rheolaidd i staff y Gyfarwyddiaeth. Mae lefelau gwariant o dan reolaeth yn gyson uchel gyda gwariant nad yw’n yn cydymffurfio yn llai na 10%. Mae gan y Cyngor hefyd nifer o ofynion o ran prosesau, systemau a dogfennau allweddol ar waith i sicrhau rheolaeth gymesur ond digonol.

# Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a llywodraethu cadarn a thryloyw

## Amcan (Lle rydyn ni'n dymuno bod)


- Mae gan bob aelod staff caffael a phob swyddog Cyngor sy'n rhan o brosesau caffael ymwybyddiaeth lawn o effaith y ddeddfwriaeth a Gorchmynion Sefydlog Contractau'r Cyngor sy'n berthnasol i weithgaredd caffael
- ac sy'n sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a bod trefniadau llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gymesur ac yn cael eu dilyn.


## Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Adolygu a diweddaru dogfennau, prosesau, systemau a rheolaethau caffael yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol.
- Darparu addysg a hyfforddiant i swyddogion y Cyngor sy'n rhan o'r broses gaffael.
- Sicrhau bod gennym drefniadau digonol ar waith i reoli perfformiad a darparu goruchwyliaeth a sicrwydd i dîm arwain y Cyngor.

## Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Gyhoeddi ein Hadroddiad Caffael blynyddol.






## Hybu atebion arloesi ac arfer gorau

Mae'r Cyngor yn cydnabod na fydd llawer o'r heriau sy'n ein hwynebu yn cael eu hateb drwy gynnal y drefn bresennol ac mae angen ein herio ein hunain a'n marchnadoedd i ddarparu cynnyrch a ffyrdd newydd o weithio a all ein helpu i:

- Leihau carbon.
- Cynyddu Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol.
- Cyflawni canlyniadau gwell.
- Cynnal neu leihau cost i gefnogi sefyllfa'r gyllideb.
- Gwella gwasanaethau.

Mae hyn yn golygu bod angen i ni gynllunio'n well, herio'r hyn rydyn ni wastad wedi'i wneud, ymgysylltu â marchnadoedd yn gynnar, chwilio am arferion da o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat a defnyddio'r broses gaffael fel modd i yrru'r farchnad i gynnig atebion sy'n mynd i'r afael â phroblemau, heriau a chanlyniadau penodol.

Er y gellir ystyried caffael gan rai fel rhywbeth sy'n mygu arloesedd, y gwir yw bod nifer o ffyrdd y gall y broses gaffael ei hun, o'i dilyn yn gywir, yrru gwelliant, drwy herio'r status quo. Hefyd, gellir rhoi cyfle i gynigwyr ystyried cyflwyno ffyrdd arloesol newydd o weithio. Er mwyn cyflawni'r buddion hyn fodd bynnag, mae angen newid yr arfer o ffafrio atebion sy'n seiliedig ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol a chynllunio gwell a mwy amserol.

Mae'r sector gyhoeddus ledled Cymru hefyd yn cydnabod y gallai wneud mwy i rannu arferion da a datblygu atebion newydd, arloesol. I'r perwyl hwn mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyllid i sefydlu Canolfan Ragoriaeth Caffael.

## Hybu atebion arloesi ac arfer gorau

### Amcan (Lle rydyn ni'n dymuno bod)

- Ceisir cyfleoedd yn rheolaidd am atebion arloesol ar gyfer cynnyrch, gwasanaethau neu waith sydd ei angen gan y Cyngor ac mae'r farchnad yn cael ei herio i gynnig gwell atebion.
- Defnyddir y broses gaffael i yrru ac annog arloesedd lle gall leihau cost a / neu wella effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor a chyflawni blaenoriaethau ehangach, datgarboneiddio yn benodol.

### Byddwn yn gwneud hyn drwy (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

- Herio trefniadau caffael a modelau cyflenwi presennol a chwilio am enghreifftiau perthnasol o arloesi ac arfer gorau gan y farchnad.
- Annog dull caffael sy'n seiliedig ar ganlyniadau / problemau i ysgogi atebion creadigol ac arloesol ac ymgysylltu'n gynnar â marchnadoedd.
- Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a sefydliadau sector cyhoeddus eraill i sbarduno arloesedd a gwerth ychwanegol a rhannu arfer da a datblygu mewnwelediad.

### Byddwn yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni drwy

- Adrodd a datblygu astudiaethau achos i dynnu sylw at arferion gorau.



# Prif Alluogwyr

Mae'r Cyngor wedi adnabod pum galluogwr allweddol a fydd yn hanfodol i gyflawni'r Strategaeth hon:



## Pobl

- Parhau i fuddsoddi yn ein staff ledled y Cyngor, a'r Cynghorwyr, i sicrhau bod y rheiny sy'n cymryd rhan yn y broses gaffael yn meddu ar y cyfuniad iawn o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd i weithio'n effeithiol ac yn annibynnol.
- Parhau i gefnogi ein rhaglen lleoliadau myfyrwyr i sicrhau ein bod yn gallu recriwtio a datblygu staff i ddiwallu ein hanghenion.




## Proses

- Symleiddio a safoni ein proses graidd a sicrhau bod ein rheoliadau'n gofyn am gydymffurfiaeth.
- Sicrhau bod templedi safonol ar waith ar gyfer dogfennaeth caffael a chontractio allweddol a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Sicrhau bod staff sy'n cymryd rhan yn y broses gaffael yn cael y mynediad gofynnol i hyfforddiant a chefnogaeth.



## Technoleg

- Buddsoddi mewn defnyddio technoleg ac e-gaffael fel sail i'n prosesau craidd a'u symleiddio ac i ddigideiddio data a gwella integreiddio ar draws systemau.
- Defnyddio PowerBI i wella sut mae Cyfarwyddiaethau'n cadw llygad ar eu gwariant a'u perfformiad caffael.
- Gwella ein prosesau Prynu i Dalu (P2P) i lywio arbedion effeithlonrwydd.



## Gwybodaeth

- Rhoi data gwario cywir ac amserol i staff i ategu at benderfyniadau caffael a chyfleoedd i adnabod arbedion.
- Cyhoeddi Blaengynllun Contractau a Chofrestr Contractau bob chwarter i wella gweledigaeth a chynllunio.
- Cynhyrchu adroddiad Caffael blynyddol.
- Cefnogi Cyfarwyddiaethau i fanteisio ar eu gwariant i gyflawni eu hamcanion strategol.



## Diwylliant

- Datblygu diwylliant sy'n arloesol ac sy'n herio dulliau cyflawni traddodiadol i wella'r hyn rydym yn ei wneud a gyrru arbedion.
- Sicrhau bod staff yn deall ac yn gwerthfawrogi rheolau a pholisïau Caffael y Cyngor
- Sicrhau bod ymgysylltu positif gyda staff ledled y Cyngor i gefnogi ac annog cyflawniad datrysiadau arloesol o fewn rheolau cytunedig y Cyngor a deddfwriaeth ehangach.
- Gweithio ar y cyd i sicrhau gwell atebion a rhannu dysgu.

# Monitro, Adolygu ac Adrodd

Bydd Cynllun Cyflawni manwl yn nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu rhoi ar waith i gyflawni'r Strategaeth Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol hon. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau, a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Moderneiddio, sydd hefyd yn gweithredu fel Hyrwyddwr Buddion Cymunedol a Chyflogaeth Foesegol y Cyngor, yn goruchwylio cynnydd a chyflawniad.

Bydd y Cynllun Cyflawni hwn yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol ac yn cael ei ddefnyddio i reoli ac adrodd ar gynnydd.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Caffael Blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- Adroddiad cynnydd ar weithredu Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol.
- Crynodeb o'r contractau a ddyfarnwyd uwchben Trothwyon Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (RhCCau) 2015.
- Manylion adolygiad i'r graddau y cyfrannodd contractau'r Cyngor at wella llesiant yng Nghaerdydd.
- Datganiad ynghylch sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwella ymhellach y broses o ddarparu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Crynodeb o'r caffael y mae'r Cyngor yn disgwyl ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf.



# Rheoli Caffael

Mae'r cyfrifoldeb am reoli a chydlynu gweithgarwch caffael ledled y Cyngor yn eistedd gyda Gwasanaeth Comisiynu a Chaffael y Cyngor sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am:

- Ddatblygu a darparu strategaeth, polisi, trefniadau llywodraethu a systemau caffael.
- Dadansoddi gwariant a goruchwylio perfformiad a sicrwydd.
- Cefnogi Cyfarwyddiaethau wrth ddatblygu dull cyrchu, a rheoli'r broses dendro a dyfarnu contractau.

Mae'r Cyngor yn rheoli cyflawniad ei weithgaredd caffael drwy Dîm Strategaeth a Datblygu, Tîm Cyrchu a thri Thîm Categori:

- Cymdeithasol.
- Amgylcheddol.
- Corfforaethol.

Mae'r cyfrifoldeb dros bennu gofynion a rheoli contractau yn eistedd gyda'r Gyfarwyddiaeth berthnasol. Yn ogystal â rheoli caffael ar ran Cyngor Caerdydd mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am:

- Reoli'r swyddogaethau caffael ar gyfer Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.
- Cyflwyno nifer o fframweithiau cydweithredol rhanbarthol ar gyfer De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru megis SEWSCAP (Adeiladu), SEWH (Peirianneg Sifil a Phriffyrdd) a SEWTAPS (Gwasanaethau Technegol a Phroffesiynol).
- Darparu cymorth caffael i Dîm Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

monmouthshire
sir fynwy


TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

sewtaps

sewscap

Prifddinas Ranbarth Caerdydd

sewh



# Cymorth Cyflenwyr a Gwybodaeth Bellach

Mae tudalennau gwe caffael Cyngor Caerdydd www.caerdydd.gov.uk/caffael yn darparu amrywiaeth o wybodaeth i gefnogi sefydliadau sy'n awyddus i weithio gyda'r Cyngor, gan gynnwys:

**Canllaw Gwerthu i'r Cyngor** – Nod y canllaw hwn yw helpu cyflenwyr a chontractwyr posibl i ddeall sut mae Cyngor Caerdydd yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith a'u helpu i ddod o hyd i gyfleoedd am waith ac i gynnig amdano. Mae'n rhoi manylion ynghylch sut i gofrestru ar PROACTIS, system e-gaffael y Cyngor. PROACTIS yw lle mae'r Cyngor yn hysbysebu cyfleoedd ac yn derbyn ymatebion yn electronig gan sefydliadau sydd â diddordeb.

Mae **Cofrestr Contractau'r** Cyngor yn darparu rhestr o gontractau a fframweithiau presennol y Cyngor ac yn cynnwys manylion am y sefydliadau llwyddiannus a dyddiadau gorffen y contractau.

**Blaengynllun Contractau** - yn rhoi manylion am y tendrau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyhoeddi dros y 18 mis nesaf.

Mae'r **Datganiad Caethwasiaeth Fodern** yn nodi ymrwymiad y Cyngor i sicrhau nad oes gan gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl le mewn cadwyni busnes a chyflenwi. Mae'r datganiad yn rhan o Bolisi Diogelu Corfforaethol trosfwaol y Cyngor ac mae'n nodi'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Mae hefyd yn nodi'r ymrwymiadau rydym yn eu gwneud i reoli a lleihau risg caethwasiaeth neu fasnachu pobl mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **www.caerdydd.gov.uk/caethwasiaethfodern**

**Polisi Diogelu i Gontractwyr** -mae'n ofynnol i bob Contractwr sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau neu waith ar ran y Cyngor gyflawni eu rôl wrth sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau diogelu. Dylai gweithlu ein contractwyr wybod beth yw diogelu, sut olwg sydd ar gam-drin/niwed, a beth i'w wneud os ydyn nhw'n credu bod rhywun yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin.

**Cyflog Byw Gwirioneddol** - Mae'r Cyngor yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig ac mae Caerdydd wedi cael ei chydnabod fel Dinas Cyflog Byw. Rydym yn annog ein holl gontractwyr i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol - mae rhagor o wybodaeth am y Cyflog Byw Gwirioneddol a chynllun Cymorth Achredu Cyflog Byw y Cyngor i BBaCauh yng Nghaerdydd ar gael yn **www.caerdydd.gov. uk/cyflogbyw** neu drwy ymweld â **www. livingwage.cymru**

**Safonau'r Gymraeg** - Rhaid i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i Gyngor Caerdydd gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (a ddyroddir i'r Cyngor) i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r gwasanaeth/contract penodol hwnnw. Mae'r Canllaw Safonau'r Gymraeg (973kb PDF) yn crynhoi gofynion y safonau gyda'r nod o gynorthwyo sefydliadau i gydymffurfio â'r gofyniad.

**Polisi Chwythu'r Chwiban** - Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, yn gywir ac yn atebol. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw, rydym yn disgwyl i weithwyr a phobl eraill rydym yn ymdrin â nhw sydd â phryderon sylweddol am unrhyw agwedd ar waith y Cyngor leisio'r pryderon hynny. Mae staff contractwyr wedi'u cynnwys ym Mholisi Chwythu'r Chwiban (347kb PDF) y Cyngor a dylent roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad staff y Cyngor neu faterion y mae'r Cyngor yn atebol amdanynt. Ymchwilir yn llawn, yn deg ac yn gyfrinachol i bob pryder.

**Economi Sylfaenol** - Mae'r gwasanaethau a'r cynnyrch o fewn yr economi sylfaenol yn darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol hynny y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt ac sy'n ein cadw'n ddiogel, yn gadarn ac yn wâr. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthwyr ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol. Y diwydiannau a'r cwmnïau sydd yno oherwydd bod pobl yno. Mae amcangyfrifon yn awgrymu eu bod yn cyfrif am bedair o bob deg swydd a £1 o bob tair rydyn ni'n eu gwario. Mewn rhai rhannau o Gymru, yr 'economi sylfaenol' hon yw'r economi. Busnes Cymru

# Cysylltu â ni

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am y strategaeth

E-bost
caffael@caerdydd.gov.uk

Ysgrifennwch at:

Gwasanaethau Comisiynu a Chaffael
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

Gwefan:
www.caerdydd.gov.uk/caffael